**Agenda**

**ELL 06-01(agd)**

**Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 21 Mawrth 2001

**Amser: 2.30pm**

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Agenda**

**Eitem 1: Adroddiad gan Weinidog y Cynulliad (45 munud)**

***Papur: ELL 06-01(p.1)***

Dyma adroddiad misol i'r Pwyllgor ar faterion y mae'r Gweinidog yn delio â hwy ar hyn o bryd. Mae'r adroddiad hefyd yn cynnwys eitemau y mae'r Pwyllgor wedi gofyn i'r Gweinidog adrodd yn ôl arnynt. Caiff yr adroddiad hwn ei ddosbarthu i'r Aelodau ar brynhawn dydd Llun cyn cyfarfod y Pwyllgor, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnwys y wybodaeth fwyaf diweddar.

**Eitem 2: Y polisi ar fonitro – Estyn – Gwerthusiad a thrafodaeth (45 munud)**

Mae'r Pwyllgor wedi gwahodd Susan Lewis, Uwch Arolygydd Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru i drafod Adroddiad Blynyddol y flwyddyn academaidd 1999 - 2000. Cyhoeddwyd yr adroddiad yma ar 16 Chwefror 2001 ac fe dderbyniodd sylw ffafriol yn y wasg arbenigol.

| **Bydd y Pwyllgor yn cael egwyl am 15 munud** |
| --- |

**Eitem 3: Adolygu Polisi – Addysg Uwch – Cyflwyno Thema Allweddol – Cyllido – gan Syr William Taylor (15 munud) ac Addysg Uwch Cymru (15 munud), cwestiynau a thrafodaeth (30 munud)**

***Papurau: ELL 06-01(p.2) a ELL 06-01(p.3*)**

Bydd Syr William Taylor, Cadeirydd yr *U-UK Funding Operations Review Group*, yn cyflwyno trafodaeth ar y thema Cyllido. Yn dilyn hyn, bydd yr Athro Steve Smith, Dirprwy Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth, yn rhoi cyflwyniad byr ar yr un thema ar ran Addysg Uwch Cymru. Ceir cyfle i holi cwestiynau a chynnal trafodaeth ar y mater yn dilyn y cyflwyniadau.

**Eitem 4: Cofnodion cyfarfod 7 Mawrth**

***Papur: ELL 05-01 (min)***

**Papurau i'w nodi**

**Papur i'w nodi: Llythyr oddi wrth Mr R.G. Bingham, Cadeirydd grwp gweithiol TGCh Cymdeithas y Cyfarwyddwyr Addysg yng Nghymru (ADEW) ynghlyn ag adroddiad TGCh y Pwyllgor a llythyr y Cadeirydd yn ymateb.**

***Papur: ELL 06-01 (p.4)***

**Papur i'w nodi: Llythyr oddi wrth Cadeirydd y Pwyllgor Datblygu Economaidd i'r Cadeirydd**

***Papur: ELL 06-01 (p.5)***

**Papur i'w nodi: Llythyr Cylch Gwaith y Cynulliad (2000-01) i Estyn.**

***Papur: ELL 06-01 (p.6)***

**Papur i'w nodi: Llythyr Ymgynghoriad a Rheoliadau Drafft y Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.**

***Papur ELL 06-01 (p.7)***